# Canllawiau Ffurflen Hepgor ID

**Ffurflen Hepgor Adnabod Prawf Iechyd a Diogelwch a'r Amgylchedd (HS&E) ("Ffurflen Hepgor ID")**

Os nad oes gennych y dogfennau adnabod ffotograffig ("ID") fel sy'n ofynnol ym Mholisi ID Prawf HS&E CITB, cwblhewch y Ffurflen Hepgor ID Prawf HS&E dros y ddalen. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol lle na allwch ddarparu'r ID Cynradd neu Eilaidd sydd ei angen i sefyll eich prawf y dylid defnyddio'r Ffurflen hon.

**Rhestr wirio Ffurflen Hepgor**

Gwnewch yn siŵr bod y Ffurflen Hepgor ID yn bodloni'r holl feini prawf a restrir yng nghamau 1–5 isod, neu ni fyddwch yn cael profi.

1. Rhaid atodi'r ffurflen i e-bost swyddogol gan eich noddwr, slip cyfarch neu ei hargraffu ar bapur pennawd y cwmni.

2. Rhaid i'ch noddwr lofnodi a dyddio'r adrannau Datganiad Noddwr, gan nodi eu swydd a'u teitl.

3. Rhaid atodi eich llun, sydd wedi'i lofnodi gennych chi'ch hun, a'ch noddwr, i'r ffurflen.

4. Cwblhewch Fanylion yr Ymgeisydd a llofnodwch y ffurflen Hepgor ym mhresenoldeb eich noddwr.
5. Rhaid i chi gyflwyno DWY ffurf ddilys ychwanegol o ID o'r rhestr isod.

**Gwybodaeth Bwysig**
Rhaid i chi enwebu person mewn swydd gyfrifol yr ydych yn adnabyddus iddo (eich "noddwr") i gadarnhau eich hunaniaeth. Rhaid i chi ddewis eich noddwr o'r rhestr ganlynol o noddwyr derbyniol:

| | | |
|---|---|---|
| Meddyg | Swyddog Prawf | Gweithiwr Canolfan Waith/DWP |
| Ynad | Swyddog y Gwasanaeth Tân | Athro/Darlithydd |
| Cyfreithiwr | Swyddog y Lluoedd Arfog | Swyddog Undeb Llafur |
| Swyddog yr Heddlu | Cadeirydd Cyfarwyddwr Cwmni Cyfyngedig | Llywodraethwr y Carchar |

**Rhaid** i'ch noddwr fod:
- yn annibynnol ar, a heb fod yn gysylltiedig â, y ganolfan brawf lle rydych chi'n sefyll y prawf.
- heb fod yn perthyn i chi trwy enedigaeth na phriodas
- heb fod mewn perthynas â chi
- heb fod yn byw yn yr un cyfeiriad â chi

## Cam 1
Rhaid i'r Ffurflen Hepgor ID:
- fod ynghlwm wrth e-bost swyddogol, neu
- fod wedi'i hargraffu ar y papur pennawd gwreiddiol; neu
- fod ynghlwm wrth slip cyfarch gwreiddiol.

**eich cwmni/sefydliad noddwr.**

## Cam 2
Rhaid i'ch noddwr lofnodi a dyddio'r Ffurflen Hepgor ID a nodi eu swydd a'u teitl yn glir (e.e. Meddyg, Ynad).
Gweler yr adran Datganiad Noddwr

## Cam 3

Rhaid i chi ddarparu llun lliw diweddar, maint pasbort ohonoch chi'ch hun ynghyd â'ch Ffurflen Hepgor Adnabod. **Rhaid i chi lofnodi cefn** y llun ym mhresenoldeb eich noddwr. **Rhaid i'ch noddwr hefyd lofnodi cefn eich llun** fel tyst i'ch llofnod. Atodwch y llun i'r Ffurflen Hepgor ID mewn ffordd y gall staff y ganolfan brawf wirio bod y llofnodion yn bresennol.

## Cam 4

Cwblhewch a llofnodwch y Ffurflen Hepgor ID lle nodir yn yr adran manylion yr Ymgeisydd.

Rhaid i chi fynd â'r Ffurflen Hepgor ID gyda chi i'r ganolfan brawf, lle gofynnir i chi ei llofnodi eto, ym mhresenoldeb gweinyddwr y prawf.

## Cam 5

Yn olaf, **rhaid i chi hefyd ddarparu DWY ffurf adnabod ddilys ychwanegol** o'r rhestr isod:
• Bil cyfleustodau (llai na 3 mis oed)
• Datganiad banc (llai na 3 mis oed)
• Cerdyn credyd neu ddebyd
• Dogfen swyddogol, a gyhoeddwyd gan asiantaeth lywodraethol neu gyflogwr, yn dangos rhif Yswiriant Gwladol ac enw (e.e. slip cyflog, P60, llythyr CThEF)
• Ffurflen B79 (llythyr hysbysu rhyddhau carcharor)
• ROTL (Rhyddhau ar Drwydded Dros Dro) wedi'i llofnodi gan y Llywodraethwr
• Cerdyn adnabod carcharor – CAIFF EI DDERBYN DIM OND PAN GAIFF EI GYFLWYNO OCHR YN OCHR Â ROTL
• Tystysgrif geni/mabwysiadu wreiddiol (neu gopi ardystiedig gan y Cofrestrydd)
• Llyfr pas cymdeithas adeiladu
• Cerdyn Adnabod Cenedlaethol Ewropeaidd
• Cerdyn Dinesydd neu gerdyn prawf oedran arall sy'n dangos yr hologram PASS
• Cerdyn Young Scot sy'n dangos yr hologram PASS
• Cerdyn CSCS neu gerdyn Partner CSCS sy'n dangos Logo CSCS (Hologram)
• Cerdyn Lluoedd Arfog y DU neu Gerdyn Adnabod Cyn-filwr Lluoedd Arfog y DU
• Trwydded Yrru Papur y DU (a gyhoeddwyd cyn 31 Mawrth) 2000)

Rhaid i **bob ddogfen** a gyflwynir fel ffurfiau ychwanegol o adnabod:

- fod yn **wreiddiol** (dim llungopïau na chopïau digidol)
- fod **y gyfredol** (yn ddilys) ar adeg eu darparu (heb ddod i ben)
- **cyfateb i'r enw** ar archeb y prawf

**Nodwch:**
Rydych chi a'ch noddwr yn gyfrifol am lenwi'r Ffurflen Hepgor ID yn gywir. Mae gan staff y ganolfan brawf yr hawl i wrthod unrhyw ymgeisydd nad yw wedi cwblhau'r Ffurflen Hepgor ID yn gywir. Bydd eich Ffurflen Hepgor ID yn cael ei chadw yn y ganolfan brawf am gyfnod o ddwy flynedd ac mae'n ddilys ar gyfer un prawf neu brofion olynol yn unig. Os byddwch chi'n ailsefyll prawf, bydd angen i chi naill ai lenwi Ffurflen Hepgor ID arall neu, os ydych chi'n gallu gwneud hynny erbyn y cam hwnnw, darparu'r ID llun sy'n ofynnol ym Mholisi ID Prawf HS&E CITB. Am ragor o wybodaeth ynghylch casglu, prosesu a chadw eich data personol, cyfeiriwch at Bolisi Preifatrwydd CITB https://www.citb.co.uk/cy-gb/dolenni-defnyddiol/polisi-preifatrwydd/ a Pholisi Preifatrwydd a Chwcis Pearson VUE https://home.pearsonvue.com/Legal/Privacy-and-cookies-policy.aspx.

Os amheuir unrhyw weithgarwch twyllodrus, mae gan CITB yr hawl i ddirymu eich prawf HS&E. Gall cardiau diwydiant a dderbynnir gan unrhyw ddarparwyr cynllun cardiau sy'n arddangos logo CSCS, a gafwyd yn dibynnu ar ganlyniadau prawf HS&E CITB fod mewn perygl o gael eu canslo. Mae hyn er mwyn cynnal dibynadwyedd a chyfanrwydd y cynnyrch.

Efallai y bydd angen i ni gysylltu â'ch noddwr fel rhan o'n proses ddilysu fewnol. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod eich noddwr ar gael dros y ffôn i wirio'ch Ffurflen Hepgor ID.

# Ffurflen Hepgor Adnabod Prawf HS&E CITB

Dim ond mewn amgylchiadau EITHRIADOL y gellir eu defnyddio lle nad oes gan yr ymgeisydd y ffurf ofynnol o ddogfen adnabod ffotograffig. Rhaid atodi'r Ffurflen Hepgor ID Prawf HS&E hon i e-bost swyddogol, slip cyfarch neu ei hargraffu ar bapur pennawd llythyr y cwmni/sefydliad sy'n noddi.

- Mae'r Ffurflen Hepgor ID hon yn berthnasol i un prawf neu gyfres o brofion olynol yn unig. Os yw'r ymgeisydd yn ailsefyll y prawf yn ddiweddarach, rhaid cwblhau Ffurflen Hepgor ID newydd.

**Datganiad y Noddwr**

Rwyf/rydym yn cadarnhau:

- nad yw'r ymgeisydd a nodir isod yn meddu ar y dogfennau adnabod ffotograffig (“ID”) gofynnol fel sy'n ofynnol gan Bolisi ID Prawf HS&E CITB.
- bod y ffotograff, y manylion personol, a'r llofnod isod yn wir, yn gywir, yn gyflawn ac nid yn gamarweiniol
- trwy ddefnyddio'r Ffurflen Hepgor ID hon yn lle'r ddogfen adnabod ffotograffig sy'n ofynnol ym Mholisi ID Prawf HS&E CITB, na fydd y noddwr yn dal CITB na'i bartner cyflwyno arholiadau, Pearson, yn gyfrifol am unrhyw broblemau neu ganlyniadau os canfyddir bod unrhyw un o'r wybodaeth a ddarperir yn anghywir neu'n ffug.

| | |
|---|---|
| **Enw Llawn y Noddwr** | |
| **Rhif ffôn cyswllt y noddwr** (At ddibenion dilysu yn unig) | |
| **Llofnod y Noddwr** | |
| **Enw mewn Priflythrennau** | |
| **Swydd** | |
| **Dyddiad** | / / |

**Manylion yr Ymgeisydd**

| | |
|---|---|
| **Enw Cyntaf yr Ymgeisydd** | |
| **Cyfenw’r Ymgeisydd** | |
| **Cyfeiriad Cartref** | |
| **Cod Post** | |
| **Dyddiad Geni** | / / |
| **Math o Brawf** (Gweithredwr/MAP/Arbenigwr) | |
| **ID Cofrestru â CITB** (Os yw’n Hysbys) | |
| **Llofnod yr Ymgeisydd** (ym mhresenoldeb y Noddwr) | |

| Ychwanegu Llun o'r Ymgeisydd Yma<br><br>(Rhaid i luniau fod yn ddiweddar, maint pasbort ac mewn lliw, gyda llofnodion yr ymgeisydd a'r noddwr ar y cefn) |
|---|

## ADRAN I'W CHWBLHAU GAN Y GANOLFAN BRAWF

Ticiwch y ddau fath ychwanegol o ddogfen adnabod sy'n cael eu cyflwyno ochr yn ochr â'r Ffurflen Hepgor ID hon:

- ☐ Bil cyfleustodau diweddar (llai na 3 mis oed)
- ☐ Datganiad banc (llai na 3 mis oed)
- ☐ Cerdyn credyd neu ddebyd
- ☐ Dogfen swyddogol, a gyhoeddwyd gan asiantaeth lywodraethol neu gyflogwr, yn dangos rhif Yswiriant Gwladol ac enw
- ☐ Ffurflen B79 (llythyr hysbysu carcharor o ryddhau)
- ☐ ROTL ( Rhyddhau ar Drwydded Dros Dro) wedi'i llofnodi gan y Llywodraethwr
- ☐ Cerdyn adnabod carcharor - CAIFF EI DDERBYN DIM OND PAN GAIFF EI GYFLWYNO OCHR YN OCHR Â ROTL
- ☐ Tystysgrif geni/mabwysiadu wreiddiol (neu gopi ardystiedig gan y Cofrestrydd)
- ☐ Llyfr pas cymdeithas adeiladu
- ☐ Cerdyn Adnabod Cenedlaethol Ewropeaidd
- ☐ Cerdyn Dinesydd neu gerdyn prawf oedran arall sy'n dangos yr hologram PASS
- ☐ Cerdyn Young Scot sy'n dangos yr hologram PASS
- ☐ Cerdyn CSCS neu gerdyn Partner CSCS sy'n dangos y Logo CSCS (Hologram)
- ☐ Cerdyn Lluoedd Arfog y DU neu Gerdyn Adnabod Cyn-filwr Lluoedd Arfog y DU
- ☐ Trwydded Yrru Papur y DU (a gyhoeddwyd cyn 31 Mawrth 2000)

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Llofnod yr Ymgeisydd**<br>(ym mhresenoldeb gweinyddwr y prawf) | | | | | | | | | | |
| **Llofnod gweinyddwr y prawf** | | | | | | | | | | |
| **Enw'r Ganolfan Brawf** | | | | | | | | | | |
| **Dyddiad** | | / | | | / | | | | | |

Mae staff y ganolfan brawf wedi'u hawdurdodi i wirio a gwrthod y Ffurflen Hepgor ID hon, ac maent yn cadw'r hawl i wneud hynny, os nad ydynt yn fodlon ar ei dilysrwydd neu os nad yw e-bost swyddogol, papur pennawd neu slip cyfarch y cwmni / sefydliad sy'n noddi yn wreiddiol.

Os canfyddir bod y Ffurflen Hepgor ID hon wedi'i chwblhau'n dwyllodrus a/neu na ellir olrhain y noddwr, bydd canlyniad unrhyw brawf HS&E a gymerir ar sail y Ffurflen Hepgor ID hon yn ddi-rym ac ni fydd unrhyw gerdyn yn cael ei roi i'r ymgeisydd a enwir ar y Ffurflen Hepgor ID hon oni bai a hyd nes y darperir tystiolaeth o adnabod ar gyfer yr ymgeisydd, sy'n foddhaol i CITB. Am ragor o wybodaeth ynghylch casglu, prosesu a chadw eich data personol, cyfeiriwch at Bolisi Preifatrwydd CITB https://www.citb.co.uk/cy-gb/dolenni-defnyddiol/polisi-preifatrwydd/ a Pholisi Preifatrwydd a Chwcis Pearson VUE https://home.pearsonvue.com/Legal/Privacy-and-cookies-policy.aspx.